



Defnyddio Cerrig Milltir a Dangosyddion Cenedlaethol i Fesur Cynnydd ein Cenedl

YMATEB GAN CCGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein nod yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Yn hytrach nag ateb y cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym wedi dewis canolbwyntio ar ddyrmaid bach o faterion allweddol sy'n ymwneud â'r gwaith hwn sydd o bwys i'r sector gwirfoddol. Credwn y gall y manylion ynghylch manteision ac anfanteision bob carreg filltir gael eu hateb yn well gan fudiadau sy'n arbenigo yn y meysydd hynny; fodd bynnag, mae rhai materion trawsbynciol yr hoffem eu hamlygu.
3. Diolchwn i'r holl fudiadau hynny sydd wedi cyfrannu at yr ymateb hwn, gan gynnwys Cynulliad Merched Cymru, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, Llais y Goedwig, yr Undodwyr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Coed Cadw, Maint Cymru, Cytûn, Cyngor ar Bopeth, Leonard Cheshire, y Groes Goch Brydeinig, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS) a Chyswllt Amgylchedd Cymru.

PRIF NEGESEUON AR GERRIG MILLTIR A DANGOSYDDION

4. Waeth beth yw'r cerrig milltir a'r dangosyddion, ni fyddant yn cael fawr o effaith os nad ydynt:

- Yn cael eu perchnogi a'u deall yn eang gan bawb, gyda ffocws gwirioneddol ar gyfranogiad a chyd-gynhyrchu. Mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae yma
- Wedi'u corffori fel llinyn euraidd ar draws holl raglenni, cyllid a threfniadau adrodd y llywodraeth
- Yn ôl pob golwg, yn cynrychioli ein mesurau cynnydd gwirioneddol fel cenedl. Mae'r [adroddiad hwn \(Saesneg yn unig\)](#) gan Carnegie UK Trust ar Lesiant Domestig Gros yn fesur o gynnydd cymdeithasol, ac yn werth ei ystyried gan Lywodraeth Cymru

CYNNWYS Y SECTOR GWIRFODDOL MEWN CERRIG MILLTIR A DANGOSYDDION

5. Gwnaeth CGGC lansio arolwg yn gofyn i'r sector gwirfoddol am rai syniadau ar y rhaglen Cerrig Milltir a Dangosyddion Cenedlaethol a chynrychiolaeth gwirfoddoli o'i mewn.
6. Awgryma'r ymatebion i'r arolwg nad oes ymwybyddiaeth eang o'r rhaglen Dangosyddion a Cherrig Milltir. Fodd bynnag, awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn credu ei fod yn bwysig iawn i'r sector fod yn rhan o'r gwaith hwn.
7. Mae'n bwysig bod y sector yn cael ei gynnwys oherwydd:
 - Mae'r sector yn allweddol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a bydd ei waith yn cael effaith enfawr ar y cerrig milltir os cânt eu cyrraedd
 - Mae'r cerrig milltir a'r dangosyddion yn cynrychioli ffordd arall i'r sector ddangos y gwahaniaeth y mae'n ei wneud
 - Dylid cyd-gynhyrchu dulliau defnyddiol, hawdd eu defnyddio o fonitro'r cerrig milltir
 - Mae'r sector yn agosach nag unrhyw un at y cymunedau llawr gwlad y bydd eu llesiant yn sylfaen i'r hyn y bydd y dangosyddion a'r cerrig milltir hyn yn seiliedig arnynt
 - Gall y sector nodi rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, uwchraddio'r rhain lle y bo'n briodol a defnyddio cymorth traws-sector i gyflawni canlyniadau a fydd yn gwneud cynnydd tuag at y dangosyddion a'r cerrig milltir
 - Mae gan y sector gyfoeth o ddata ac ymchwil i gefnogi Llywodraeth Cymru yn y rhaglen hon
 - Mae gwirfoddoli yn ffordd ragorol i bobl ddefnyddio a gwella'u sgiliau Cymraeg, gan helpu i gyfrannu at y garreg filltir o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
8. Mae'r dangosydd 'y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli' yn bwydo i mewn i nifer o gerrig milltir yn y pen draw, gan gynnwys 'miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050', 'Bydd Cymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050', 'Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc

rhwng 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050', 'lleihau'r canran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw i 6% erbyn 2035 a llai nag 1% erbyn 2050', a 'Bydd Cymru yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear yn unig erbyn 2050'. Mae nifer o ffyrdd y gall y sector gwirfoddol gyfrannu at y cerrig milltir hyn, gan gynnwys:

- Cymryd rhan barhaus yn y gwaith o gydgyllunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer cymunedau
- Atgyfnerthu rhaglenni adfer cenedlaethol ar ôl Covid
- Helpu i ddatrys problemau o ran cynhwysiant digidol
- Hyrwyddo'r sector gwirfoddol fel opsiwn gyrfaol dymunol
- Sicrhau llwyddiant yr agenda ataliol
- Hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu polisi
- Trwy roi data a gwybodaeth amhrisiadwy i Lywodraeth Cymru ar gymunedau a phroblemau cymunedol

Ond bydd angen adnoddau ar y sector i gyflawni hyn i gyd.

9. Dylid nodi bod rhai mudiadau eisoes yn adrodd yn erbyn y Nodau Cenedlaethol neu wedi'u hymwreiddio yn eu cynlluniau busnes. Mae CGGC yn ymchwilio i sut y gall wneud rhywbeth tebyg.

GWIRFODDOLI FEL CARREG FILLTIR

10. Gwnaethom ofyn i ymatebwyr a oeddent yn credu y dylai 'nifer y bobl sy'n gwirfoddoli' fod yn garreg filltir yn ei hun. Gwnaeth mwyafrif bychan ddweud 'ydw', ond byddai'n anodd dod i gasgliadau penodol ar sail hyn. Awgrymodd nifer o ymatebwyr yr arolwg y byddai edrych ar y canlyniadau a ddaw yn sgil gwirfoddoli yn opsiwn gwell na nifer y gwirfoddolwyr yn unig.
11. Fodd bynnag, deallwn o gyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru y bwriedir cynnwys gwirfoddoli fel carreg filltir mewn ail ymgynghoriad. Fe wnawn ni roi mwy o sylwadau ar hyn pan gaiff yr ymgynghoriad hwnnw ei lansio. Credwn ei fod yn bwysig nodi, ar yr adeg hon, fod tystiolaeth sy'n awgrymu bod gwirfoddoli yn gwneud cyfraniad cryf at nodau dangosyddion 5, 14 a 37. Bydd gosod carreg filltir yn erbyn Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 28 a gweithio tuag at hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys casglu data yn fwy aml, yn fuddiol iawn i nifer o ddangosyddion rhyng-gysylltiedig, gan gyflwyno dull cynhwysfawr o gyflawni saith Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

GOFYNION ADRODD

12. Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr sut byddent yn teimlo pe bai gofyniad yn cael ei gyflwyno i'r rheini sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru, a oedd yn gofyn iddynt adrodd ar sut oedd y cyllid cysylltiedig yn cyfrannu at y Dangosyddion Cenedlaethol. Credai'r mwyafrif fod hwn yn syniad da. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn unwaith y bydd y Cerrig Milltir a'r Dangosyddion wedi'u cadarnhau, gan gofio bod angen cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bob gwariant.
13. Pe bai hyn yn cael ei gyflwyno fel gofyniad adrodd, byddai'n ffurfio rhan o'r 'llynyn euraidd' y cyfeiriwyd ato ym mhwynt pedwar, gan gysylltu holl raglenni, cyllid a threfniadau adrodd y llywodraeth â'r rhaglen Cerrig Milltir a Dangosyddion.
14. Gallai aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ystyried sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y dangosyddion a'r cerrig milltir.
15. Dylai adolygiad o'r cynnydd ar y Dangosyddion fod wedi bod yn astell allweddol o'r adroddiad pum mlynedd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n siomedig nad hyn oedd yr achos.

TRAFODAETH

16. Bydd CGGC yn hapus i drafod hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion yn ôl y gofyn.

David Cook,
Swyddog Polisi, CGGC
dcook@wcva.cymru

Hydref 2021